# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd G Walter**

**Ward: Canol Dwyrain Porthcawl**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Porthcawl ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i bum pwyllgor. Fy nghofnod presenoldeb ar draws holl gyfarfodydd y cyngor a phwyllgorau yw 31 o 31 - 100%.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 34 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â 19 mater arall yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gan ddefnyddio'r ddolen hon:<br>Cynghorydd Graham Walter |
| **Gweithgarwch yn yr Etholaeth**<br><br>Rwyf wedi mynychu 5 cyfarfod Pact ac wedi cynnal sesiynau Holi ac Ateb yn Shout Porthcawl – fforwm i bobl dros 50 oed. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Rwyf wedi cyflwyno menter ar gyfer datblygu/adfywio Trwyn y Rhych ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac ymgynghoriadau ar y safle mewn perthynas ag adfywio Porthcawl, datblygiad Cosy Corner a Phafiliwn y Grand. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Rwyf wedi cyfarfod â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) lleol ac wedi adolygu materion sy'n peri pryder iddynt yn rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd G Walter:** | **Dyddiad: 12/06/2023** |